## ATODLEN 2

**Rheoliad 3**

### SWYDDOGAETHAU A ALL FOD YN GYFRIFOLDEB I WEITHREDIAETH AWDURDOD (OND NAD OES ANGEN IDDYNT FOD FELLY)

**1.** Unrhyw swyddogaeth a dan Ddeddf leol heblaw swyddogaeth a bennir neu y cyfeirir ati yn Atodlen 1.

**2.** Dyfarnu ar apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad a wnaed gan yr awdurdod neu ar ei ran.

**3.** Penodi byrddau adolygu o dan reoliadau o dan is-adran (4) o adran 34 (dyfarnu ar geisiadau ac adolygiadau) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1998(**1**).

**4.** Gwneud trefniadau yn unol ag is-adran (1) o adran 67 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (apelau yn erbyn gwahardd disgyblion) ac Atodlen 18 iddi.

**5.** Gwneud trefniadau yn unol ag adran 94(1) a (4) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (apelau derbyn) ac Atodlen 24 iddi.

**6.** Gwneud trefniadau yn unol ag adran 95(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (plant y mae adran 87 yn gymwys iddynt: apelau gan gyrff llywodraethu) ac Atodlen 25 iddi.

**7.** Gwneud trefniadau o dan adran 20 (cwestiynau ynghylch materion yr heddlu mewn cyfarfodydd cyngor) o Ddeddf yr Heddlu 1996(**2**) i ganiatáu gofyn cwestiynau ynghylch cyflawni swyddogaethau awdurdod heddlu.

**8.** Gwneud penodiadau o dan baragraffau 2 i 4 (penodi aelodau gan gynghorau perthnasol) o Atodlen 2 (awdurdodau heddlu a sefydlir o dan adran 3) i Ddeddf yr Heddlu 1996.

**9.** Cynnal adolygiadau'r gwerth gorau yn unol â darpariaethau unrhyw orchymyn sy'n dwyn effaith am y tro o dan adran 5 (adolygiadau'r gwerth gorau) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 (**3**).

**10.** Unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â thir halogedig(**4**)).

**11.** Cyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â rheoli llygredd neu reoli ansawdd aer(**5**).

**12.** Cyflwyno hysbysiad atal mewn perthynas â niwsans statudol(**6**)).

**13.** Pasio cynnig y dylai Atodlen 2 i Ddeddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993 fod yn gymwys yn ardal yr awdurdod(**7**).

**14.** Archwilio ardal yr awdurdod i ddod o hyd i unrhyw niwsans statudol(**8**).

**15.** Ymchwilio i unrhyw gŵyn ynghylch bodolaeth niwsans statudol(**9**)).

**16.** Sicrhau gwybodaeth o dan adran 330 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**10**) ynghylch buddiannau mewn tir.

---

(**1**) 1998 p.14. Mae adran 34(4) yn disodli adran 63(3) o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992. Mae effaith Rheoliadau Budd-daliadau'r Dreth Gyngor 1992 (O.S. 1992/1814) a Rheoliadau Budd-daliadau Tai (Cyffredinol) 1987 (O.S. 1987/1971), y ceir diwygiadau iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn, yn parhau yn rhinwedd adran 17(2)(b) o Ddeddf Dehongli 1978 (p.30), er bod adran 63(3) o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 wedi'i diddymu.
(**2**) 1996 p.16.
(**3**) 1999 p.27.
(**4**) Rhan IIA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43) ac is-ddeddfwriaeth o dan y Rhan honno.
(**5**) Gweler Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 (p.24), Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25), Rhan I o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43) a Deddf Aer Glân 1993 (p.11).
(**6**) Adran 80(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.
(**7**) Adran 8 o Ddeddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993 (p.40).
(**8**) Adran 79 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.
(**9**) Adran 79 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.
(**10**) 1990 p.8.

**17.** Sicrhau manylion personau sydd â buddiant mewn tir o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976(**11**)).

**18.** Gwneud cytundebau ar gyfer gwneud gwaith priffyrdd(**12**).

**19.** Penodi unrhyw unigolyn—

(a) i unrhyw swydd heblaw swydd y mae'n cael ei gyflogi ynddi gan yr awdurdod;

(b) i unrhyw gorff heblaw—

(i) yr awdurdod;

(ii) cyd-bwyllgor o ddau neu ragor o awdurdodau; neu

(c) i unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor i gorff o'r fath,

a diddymu unrhyw benodiad o'r fath.

**20.** Y pŵer i wneud taliadau neu i ddarparu manteision eraill mewn achosion o gamweinyddu etc(**13**).

**21.** Cyflawni unrhyw swyddogaeth gan awdurdod sy'n gweithredu fel awdurdod harbwr.

(**11**) 1976 p.57.
(**12**) Adran 278 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (p.66), a amnewidiwyd gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gweithfeydd Stryd 1991 (p.22), adran 23.
(**13**) Adran 92 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.